

FFINIAN, sant (fl. yn y 6ed ganrif).

Enw: Ffinian

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: sant

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Hywel David Emanuel

Y mae dwy fersiwn o 'Fuchedd' Ffinian yn fwy eu pwys na'r fersiynau eraill sydd ar gadw. Cynhwysir y naill yn *Acta SS. Hiberniae* Colgan, a cheir y llall, sef cyfieithiad Gwyddeleg sydd yn llawnach na'r cyntaf ond er hynny yn ddiweddarach o ran amser, yn y 'Book of Lismore.' Gwyddel oedd Ffinian, ac yn Iwerddon y gwnaeth ei brif waith. Ei brif sefydliad yno oedd mynachlog Clonard. Dywed y 'Fuchedd' er hynny mai yng Nghymru y derbyniodd Ffinian ei addysg a'i hyfforddiant. Pan yn 30 oed, daeth Ffinian drosodd i Hen Fynyw lle y cyfarfu â thri o saint Cymru, [Dewi](#), [Gildas](#), a [Chathmael](#), a'r ddau gyntaf ohonynt yn ymryson â'i gilydd yr adeg honno am arweinyddiaeth Cymru. Torrodd Ffinian y ddadl yn ffafwr [Dewi Sant](#). Dywedir iddo aros gyda'r henuriaid Prydeinig am 30 mlynedd, ac yn y cyfnod hwnnw iddo gyflawni llawer o wyrthiau, ac iddo hefyd gynorthwyo i droi yn ôl oresgyniad a wnaed gan y Saeson. Y mae'r ystori a geir ym 'Muchedd' [Cadog](#) yn gwahaniaethu oddi wrth hanes 'Buchedd' Ffinian. Dywed honno i [Gadog](#) ddwyn yn ôl gydag ef o Iwerddon y tri sant Ffinian, Macmoil, a Gnafan. Bu'r tri yn fyfyrwyr yn Llancarfan, a gwnaethant lawer o wyrthiau yno. Dengys y ddau hanes mor gyfeillgar oedd y berthynas draddodiadol a fodolai rhwng Cymru ac Iwerddon yn oes y seintiau. Dethlir dydd gyl Ffinian fel rheol ar 12 Rhagfyr, ond nodir 23 Chwefror hefyd mewn rhai calendrau.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

The Lives of the British Saints, ii, 30-7

Colgan, *Acta Sanctorum Hiberniae* (1947) (Irish MSS. Comm., 1947), 393-9

Stokes, *Lives of Saints from the Book of Lismore* (1890), 75-83, 222-30

J. F. Kenney, *The sources for the early history of Ireland an introduction and guide* (1929), i, 375-6

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Ffinian](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [17615676](#)

Wikidata: [Q622095](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

